**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL MERTHYR TUDFUL**
MERTHYR TYDFIL COUNTY BOROUGH COUNCIL

**YR ADRAN DYSGU**
LEARNING DEPARTMENT

# CYLCH GORCHWYL
# FFORWM CYLLIDEB YSGOLION
# MERTHYR TUDFUL

'Llwyddiant i bob plentyn'

Diweddarwyd Medi 2022

# CYNNWYS


## Adran 1 Rheoliadau a Swyddogaethau'r Fforwm Ysgolion

**1.1 Rheoliadau**
**1.2 Swyddogaethau'r Fforwm**

## Adran 2 Cyfansoddiad

**2.1 Aelodaeth**
**2.2 Cynrychiolaeth yr Ysgolion**
**2.3 Cynrychiolaeth y Clystyrau**
**2.4 Penodi Aelodau**
**2.5 Cyfnod Swydd**
**2.6 Aelodau Dirprwyol**
**2.7 Sylwedyddion**
**2.8 Diswyddo Aelodau o'r Fforwm**
**2.9 Datrys Anghydfodau**

## Adran 3 Cyfarfodydd a Thrafodion y Fforwm Ysgolion

**3.1 Clerc y Fforwm**
**3.2 Cadeirydd ac Is-Gadeirydd**
**3.3 Cyfarfodydd y Fforwm**
**3.4 Cworwm**
**3.5 Cofnodion y Cyfarfod**
**3.6 Eitemau Agenda**
**3.7 Gweithgor ac Is-Grwpiau Ychwanegol**
**3.8 Cyfrinachedd**
**3.9 Datgan Buddiant**
**3.10 Treuliau**
**3.11 Materion Eraill**

## Adran 4 Gweithredu Fforymau Ysgolion yn Effeithiol

**4.1 Cyfathrebu ag Ysgolion**
**4.2 Cyfathrebu â Fforymau Penaethiaid a Chymdeithas Llywodraethwyr**
**4.3 Cyfathrebu â Chyrff Llywodraethol**
**4.4 Gwefan y Fforwm Ysgolion**
**4.5 Adolygu'r Cylch Gorchwyl**
**4.6 Hyfforddi Aelodau**
**4.7 Arferion a Hunanwerthusiadau Effeithiol**

## FFORWM CYLLIDEB YSGOLION MERTHYR TUDFUL

## CYLCH GORCHWYL

# Adran 1 Rheoliadau a Swyddogaethau'r Fforwm Cyllideb Ysgolion

## 1.1 Rheoliadau

Mae adran 47A o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, fel y'i mewnosodwyd gan Ddeddf Addysg 2002, yn ei gwneud hi'n ofynnol i bob Awdurdod Lleol yng Nghymru sefydlu corff i'w adnabod fel "Fforwm Ysgolion", neu os oes angen, gellir cyfeirio ato ar lafar fel y "Fforwm Cyllideb Ysgolion".

Bydd y sefydliad yn cael ei adnabod fel y Fforwm Cyllideb Ysgolion (cyfeirir ato o hyn ymlaen fel "y Fforwm" yn y Cylch Gorchwyl hwn). Fe'i sefydlwyd yn unol â Rheoliadau Fforymau Ysgolion (Cymru) 2003.

## 1.2 Swyddogaethau'r Fforwm

Bydd y Fforwm yn darparu sianel gyfathrebu ffurfiol rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ac Ysgolion Merthyr Tudful a thrwyddi, fe fydd yr Awdurdod yn ymgynghori ynghylch y modd y mae'n gweithredu'i swyddogaethau mewn perthynas â'r canlynol:

- Cyllideb Ysgolion yr Awdurdod Lleol;
- newidiadau i'r Cynllun Dirprwyo, gan gynnwys newidiadau i'r Fformiwla Ariannu ac effaith debygol y cyfryw newidiadau;
- contractau ar gyfer cyflenwadau a gwasanaethau sy'n uwch na'r trothwy rhagnodedig ar gyfer caffael; a'r
- Cytundebau Lefel Gwasanaeth ar gyfer cyflenwi nwyddau a gwasanaethau gan yr Awdurdod i Ysgolion.

Fe all yr Awdurdod hefyd ymgynghori â'r Fforwm ynghylch goblygiadau ariannol y canlynol:

- trefniadau ar gyfer prydau ysgol am ddim;
- trefniadau ar gyfer yswiriant;
- trefniadau ar gyfer addysg disgyblion ag anghenion addysgol arbennig;
- trefniadau ar gyfer defnyddio unedau cyfeirio disgyblion ac addysg plant heblaw yn yr ysgol;
- addysg y Blynyddoedd Cynnar;
- dyrannu a defnyddio grantiau penodol;
- Cludiant Ysgol.

# Adran 2 Cyfansoddiad

## 2.1 Aelodaeth

Bydd y Fforwm yn cynnwys 20 aelod. Bydd 15 ohonynt yn aelodau ysgol a byddant naill ai'n Benaethiaid neu'n Llywodraethwyr. Bydd 5 ohonynt o'r tu allan i'r ysgol ac fe'u penodir gan yr Awdurdod Lleol. Ni ddylai'r Fforwm gynnwys mwy na 25% o aelodau o'r tu allan i'r ysgol.

Yn unol â'r Rheoliadau, rhaid i aelodaeth yr ysgolion fod yn gymesur â chyfanswm nifer y disgyblion mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, a rhaid penodi o leiaf un Aelod o bob categori ysgol, h.y. Cymunedol, Sefydledig a Gwirfoddol.

Rhaid i o leiaf un aelod ysgol gynrychioli sector yr Ysgolion Arbennig.

Y gyfran bresennol o ddisgyblion Cynradd/Uwchradd yn seiliedig ar CYBLD 2022 yw 65%/35%.

**Cynrychiolaeth Aelodau Ysgol (15)**
Pennaeth Ysgol Gynradd Cyfrwng Saesneg (5)
Pennaeth Ysgol Gynradd Cyfrwng Cymraeg (1)
Pennaeth Ysgol Uwchradd (2)
Pennaeth Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir (1)
Pennaeth Ysgol Arbennig (1)
Llywodraethwyr Ysgol (5) [2 o'r Cynradd, 2 o'r Uwchradd, ac 1 "arall", o naill ai Ysgol Arbennig, Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir neu Ysgol Gynradd/Uwchradd yn dibynnu ar y gynrychiolaeth gyfrannol y mae angen ei bodloni]

Dylai un o'r pum Llywodraethwr fod yn Rhiant Lywodraethwr lle bo modd.

**Cynrychiolwyr nad ydynt yn Aelodau Ysgol (5)**
Arweinydd y Portffolio ar gyfer Dysgu (1)
Y Cyfarwyddwr Addysg (1)
Y Cyfarwyddwr Cyllid (1)
Pennaeth Cynllunio a Gwella Ysgolion (1)
Cynrychiolydd Undeb Llafur Athrawon (1)

**Cynrychiolaeth Gyfrannol yr Aelodau Cynradd/Uwchradd**
Mae Pennaeth yr Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yn cynrychioli ysgol 3-16 ac felly, mae'n cwmpasu Ysgol Gynradd ac Uwchradd ac o'r herwydd mae wedi'i eithrio o'r gynrychiolaeth gyfrannol.

Aelodau ysgolion cynradd 8 (5 Pennaeth CS, 1 Pennaeth CC, 2 Lywodraethwr) 66.7%
Aelodau ysgolion uwchradd 4 (2 Bennaeth, 2 Lywodraethwr) 33.3%.

Er mwyn cynnal y gynrychiolaeth gyfrannol bresennol, dylai'r Llywodraethwr 'arall', os yn bosibl, gynrychioli naill ai'r Ysgol Arbennig neu'r Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir.

## 2.2 Cynrychiolaeth yr Ysgolion

Er mwyn sicrhau bod cynifer o ysgolion â phosibl yn cael eu cynrychioli ar y Fforwm, ni fydd cynrychiolwyr Penaethiaid a Llywodraethwyr fel arfer yn cael eu penodi o'r un ysgol gynradd neu uwchradd, oni bai bod angen llenwi lle gwag hirsefydlog.

Bydd eithriad i hyn yn cael ei wneud pan fydd y Llywodraethwr "Arall" yn cael ei benodi o naill ai'r Ysgol Arbennig neu'r Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir er mwyn cynnal cynrychiolaeth gyfrannol briodol o blith yr Aelodau Cynradd/Uwchradd.

## 2.3 Cynrychiolaeth y Clystyrau

Cyn belled ag y bo modd, dylai cynrychiolaeth ysgolion (Penaethiaid a Llywodraethwyr) fod yn gyfartal ar draws y tri chlwstwr o ysgolion uwchradd/cynradd cymunedol.

Yn benodol:

O'r 7 cynrychiolydd i'w llenwi gan y tri chlwstwr ar gyfer Penaethiaid Cynradd/Uwchradd, dylai pob clwstwr fod ag o leiaf dau a dim mwy na thri aelod.

O'r 10 neu 11 swydd Pennaeth/Llywodraethwr i'w llenwi gan y tri chlwstwr, dylai pob clwstwr fod ag o leiaf tri a dim mwy na phedwar aelod.

Ni fydd yn bosibl cyflawni hyn bob amser, ond fel egwyddor, dylai hyn lywio'r gwaith o lenwi swyddi gwag lle bynnag y bo'n ymarferol.

## 2.4 Penodi Aelodau

Bydd Cynrychiolwyr y Penaethiaid yn cael eu penodi gan broses enwebu ac ethol lle gofynnir i bob ysgol yn y categori gymryd rhan, e.e. bydd pob Pennaeth Clwstwr yn enwebu ac yn pleidleisio ar gyfer ymgeiswyr i gynrychioli'r clwstwr. Pe bai modd llenwi unrhyw le gwag gan fwy nag un clwstwr, ceisir enwebiadau o bob clwstwr perthnasol a chaiff proses etholiadol ei chynnal ar draws pob ysgol.

Bydd rhai Penaethiaid yn aelodau os yw eu hysgol yr unig un o'i math, h.y. Ysgol Arbennig neu Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir.

Bydd Cynrychiolwyr y Llywodraethwyr yn cael eu henwebu gan Gymdeithas Llywodraethwyr Merthyr Tudful (yr MTGA) yn seiliedig ar y lleoedd gwag sydd ar gael o fewn y Clwstwr. Nid yw'n ofynnol i Lywodraethwyr arfaethedig fod yn aelodau o'r Gymdeithas, a gellir canfasio'r holl Gyrff Llywodraethol perthnasol am ddiddordeb yn y swyddi gwag i Lywodraethwyr, a chaiff yr enwebiadau eu cadarnhau gan yr MTGA. Os na ellir llenwi swydd wag, yna holir clystyrau eraill am eu diddordeb hwythau.

Nid yw'n ofynnol i Lywodraethwyr fod yn Gadeiryddion yn yr ysgolion y maent yn eu cynrychioli, ond byddai Cadeirydd/Is-Gadeirydd y Llywodraethwyr neu Gadeirydd Cyllid yn ymgeiswyr da i gynrychioli'r Llywodraethwyr.

Penodir Cynrychiolwyr nad ydynt yn Aelodau Ysgol ar sail eu swydd o fewn yr Awdurdod Lleol. Bydd Cynrychiolydd Undeb Llafur yr Athrawon yn cael ei enwebu gan Grŵp Partneriaeth Undebau Llafur Merthyr Tudful.

Pan geir lle gwag ar gyfer unrhyw gategori o Aelod, bydd Clerc y Fforwm yn gwneud cais i'r Corff enwebu/ethol rhywun arall yn ei le am weddill cyfnod y swydd.

Gwneir pob penodiad trwy lythyr gan y Clerc.

## 2.5 Cyfnod Swydd

Bydd pob aelod yn cael ei ethol neu'i benodi am gyfnod o ddim mwy na 4 blynedd.

Dylid annog y drefn o stagro penodiadau lle bo modd, er mwyn sicrhau dilyniant o fewn yr aelodaeth.

## 2.6 Aelodau Dirprwyol

Pan na all Cynrychiolydd Ysgol fod yn bresennol, yna dylai'r Aelod hwnnw drefnu bod Dirprwy priodol yn bresennol yn ei le, a dylai hysbysu Clerc y Fforwm i anfon y gwahoddiad.

Bydd angen i'r Aelod Dirprwyol fod yr un mor gymwys ar gyfer y Fforwm Ysgolion â'r Aelod y mae'n ei ddirprwyo, e.e. Pennaeth neu Lywodraethwr o'r un sector.

Yn y Sector Uwchradd, dim ond un all weithredu fel Aelod Dirprwyol ar gyfer Pennaeth. Yn yr achos hwn, lle nad oes Aelod Dirprwyol ar gael ar gyfer Pennaeth neu lle mae angen mwy nag un Aelod Dirprwyol i fod yn bresennol, gellir anfon Dirprwy Bennaeth yn ei le mewn cytundeb â'r Penaethiaid Uwchradd eraill.

Yn yr Ysgolion Arbennig a Gwirfoddol a Gynorthwyir, lle nad oes unrhyw Benaethiaid Dirprwyol, gellir anfon Dirprwy Bennaeth neu Bennaeth Campws fel dirprwy priodol.

Yn achos Aelodau sydd ddim yn cynrychioli ysgolion, y Dirprwy priodol fyddai person a all weithredu fel Aelod yn rhinwedd ei swydd o fewn yr Awdurdod Lleol neu sefydliad priodol arall.

Ym mhob achos, dylai'r Cynrychiolydd hysbysu'r Clerc o'r gofyniad i wahodd yr Aelod Dirprwyol. Bydd unrhyw ymholiad ynghylch priodoldeb Aelod Dirprwyol yn cael ei gytuno gan y Clerc ar y cyd â'r Cadeirydd.

## 2.7 Sylwedyddion

Mae hawl gan Sylwedydd i fynychu a chymryd rhan yng nghyfarfodydd y Fforwm, ar gais yr Awdurdod Lleol a gyda chytundeb y Cadeirydd, ond nid oes ganddo hawliau pleidleisio.

Bydd gan y Sylwedyddion a ganlyn wahoddiad sefydlog i gyfarfodydd y Fforwm:

**Aelodau â Statws Sylwedydd (4)**
Swyddog yn gweithredu fel Clerc y Fforwm (1)
Rheolwr RhYLl (1)
Cyfrifydd Addysg (1)
Cadeirydd Craffu Dysgu a GALlL (1)

Gellir gwahodd Sylwedyddion eraill i fynychu cyfarfodydd y Fforwm yn ôl yr angen gyda chytundeb y Cadeirydd a'r Cyfarwyddwr Addysg.

## 2.8 Diswyddo Aelodau o'r Fforwm

Os nad yw Aelod bellach yn dal swydd Pennaeth neu Lywodraethwr yr Ysgol, sef y rheswm y cafodd ei benodi i'r Fforwm, bydd ei benodiad yn cael ei derfynu.

Yn achos Cynrychiolydd sydd ddim yn Aelod Ysgol, bydd ei benodiad yn dod i ben pan na fydd yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd a ddilynwyd wrth ei enwebu i'r Fforwm.

Bydd Aelod o'r Fforwm, sy'n methu mynychu unrhyw dri chyfarfod o'r Fforwm yn olynol, oni bai bod rhesymau eithriadol am yr absenoldeb, yn cael ei ddiarddel fel Aelod o'r Fforwm, mewn cytundeb â'r Cadeirydd a'r Cyfarwyddwr Addysg.

## 2.9 Datrys Anghydfod

Bydd angen consensws rhwng y Cyfarwyddwr Addysg a'r Cadeirydd i ddatrys achosion sy'n destun anghydfod. Fodd bynnag, y Prif Weithredwr sydd ag awdurdod dirprwyedig i ddiddymu ac ailgyfansoddi'r Fforwm, ac ef yw'r canolwr terfynol mewn dadl ynghylch aelodaeth sydd y tu allan i gwmpas y Canllawiau Statudol a'r Cylch Gorchwyl y cytunwyd arno.

# Adran 3 Cyfarfodydd a Thrafodion y Fforwm Ysgolion

## 3.1 Clerc y Fforwm

Bydd Adran Dysgu Cyngor Sir Merthyr Tudful yn gweithredu fel Clerc y Fforwm.

Bydd Clerc y Fforwm yn gyfrifol am y canlynol: cynghori'r Fforwm ynghylch y Rheoliadau sy'n ymwneud â'i swyddogaethau; gweithredu pob mater sy'n ymwneud â chyllid ysgolion; cynnull cyfarfodydd; paratoi a chyhoeddi papurau; clercio a chofnodi cyfarfodydd; lledaenu gwybodaeth sy'n ymwneud â chyfarfodydd a'r camau gweithredu; a delio â threuliau ac ati.

Rhoddir rhybudd o benodiadau, ymddiswyddiadau neu symudiadau o'r Fforwm yn ysgrifenedig i'r Clerc.

Bydd Swyddogion Enwebedig o'r tu mewn i'r Adran Dysgu, yn cyflawni swyddogaethau Clerc y Fforwm o dan gyfarwyddyd y Cyfarwyddwr Addysg a'r Pennaeth Cynllunio a Gwella Ysgolion.

## 3.2 Cadeirydd ac Is-Gadeirydd

Y Cadeirydd fydd yn llywyddu cyfarfodydd y Fforwm.

Etholir y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd yng nghyfarfod cyntaf y flwyddyn academaidd. Bydd y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd yn gwasanaethu am gyfnod o flwyddyn i ddechrau ond gellir eu hailbenodi.

Mewn unrhyw bwyllgor lle mae angen ethol Aelod i'r Gadair, y Clerc fydd yn llywyddu'r cyfarfod adeg yr etholiad.

Is-Gadeirydd y Fforwm fydd Cadeirydd y Gweithgor Fforwm Ysgolion ar gyfer y flwyddyn academaidd honno.

Dylai'r Cadeirydd neu'r Is-Gadeirydd neu'r ddau ohonynt fod yn Bennaeth.

## 3.3 Cyfarfodydd y Fforwm

Bydd yn ofynnol i'r Fforwm gwrdd bedair gwaith y flwyddyn - ddwywaith yn Nhymor yr Hydref, unwaith yn Nhymor y Gwanwyn ac unwaith yn Nhymor yr Haf.

Fodd bynnag, caiff hyd at 7 cyfarfod o'r Fforwm eu trefnu bob blwyddyn, yn amodol ar ofynion y Rhaglen Waith am y flwyddyn a'r angen i ystyried eitemau ychwanegol ar fyr rybudd.

Caiff dyddiadau ar gyfer y flwyddyn academaidd eu cylchredeg yn y Cyfarfod Blynyddol cyntaf yn Nhymor yr Hydref, a gall y Clerc newid trefniadau'r cyfarfodydd mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd. Cytunir ar y dyddiadau nesaf fel eitem ar agenda pob un o gyfarfodydd y Fforwm.

Rhoddir rhybudd ysgrifenedig i Aelodau (a Sylwedyddion) o leiaf bum niwrnod gwaith cyn cyfarfod o'r Fforwm ac eithrio pan gaiff cyfarfod ei alw mewn cytundeb â'r Cadeirydd i drafod materion brys.

Caiff yr agenda a'r papurau ar gyfer Cyfarfod y Fforwm eu cylchredeg i'r Aelodau (a'r Sylwedyddion) bum niwrnod gwaith ymlaen llaw, oni bai y cytunir â'r Cadeirydd i'w gohirio a'u cyflwyno cyn gynted ag y bo'n ymarferol. Mae pob papur hefyd ar gael i Aelodau trwy Hwb. MTCBC Schools Forum - Overview - Networks - Hwb (gov.wales)

Fel arfer, caiff cyfarfodydd eu cynnal mewn gwahanol ysgolion yn eu tro, ac weithiau gellir eu cynnal yn swyddfeydd yr Awdurdod Lleol. At hynny, gellir cynnal cyfarfodydd ar Teams Microsoft os oes angen, ac os yw'r Cadeirydd yn cytuno.

Bydd materion y Fforwm yn cael eu cynnal yn breifat.

## 3.4 Cworwm

Bydd cworwm y Fforwm yn cynnwys 40% o aelodau, h.y. 8 o'r 20 aelod sydd, ac sydd ddim, yn cynrychioli ysgolion. Bydd Aelodau Dirprwyol yn cyfrif tuag at nifer y cworwm.

Bydd gan bob Aelod o'r Fforwm hawl i bleidleisio yn y cyfarfodydd lle bo angen a bydd gan bawb un bleidlais yr un. Bydd materion yn cael eu penderfynu gan fwyafrif syml o'r Aelodau hynny sy'n bresennol ac yn pleidleisio. Os ceir niferoedd cyfartal o bleidleisiau, bydd gan y Cadeirydd ail bleidlais fwrw. Ni fydd unrhyw gyfyngiad ar y modd y bydd y Cadeirydd yn dewis defnyddio'i bleidlais fwrw.

Fel arfer, caiff cyfarfodydd y Fforwm eu haildrefnu os nad oes cworwm, yn enwedig lle mae'n ofynnol i'r Fforwm wneud argymhellion.

Fodd bynnag, mewn amgylchiadau eithriadol a gyda chytundeb y Cadeirydd, efallai y bydd cyfarfodydd yn parhau hyd yn oed os ydynt heb gworwm. Yn yr achosion hyn, mater i'r Awdurdod fydd penderfynu a ddylid ystyried unrhyw gyngor a roddir gan y cyfarfodydd penodol hynny o'r Fforwm ai peidio.

## 3.5 Cofnodion y Cyfarfodydd

Bydd y rhain yn cael eu dosbarthu ar ffurf ddrafft o fewn 10 niwrnod gwaith i'r cyfarfod er mwyn cael sylwadau ar eu cywirdeb a'u cyflawnrwydd.

Os ceir sylwadau, bydd y Clerc yn darparu fersiwn ddiwygiedig, ynghyd â phapurau ar gyfer y cyfarfod, 5 niwrnod gwaith cyn y cyfarfod nesaf, gan gyfeirio at yr adrannau a newidiwyd.

Yna, caiff y cofnodion ffurfiol eu cytuno yn y cyfarfod nesaf gydag unrhyw newidiadau dilynol yn cael eu dosbarthu ar ôl y cyfarfod.

## 3.6 Eitemau ar yr Agenda

Cytunir ar Raglen Waith y flwyddyn yn y Cyfarfod Blynyddol a gynhelir ar ddechrau'r flwyddyn academaidd.

Yna, dosberthir agenda a phapurau i'r holl Aelodau a Sylwedyddion o leiaf 5 niwrnod gwaith cyn y cyfarfod pryd y gofynnir i Glerc y Fforwm roi gwybod am eitemau i'w hystyried o dan Unrhyw Fater Arall. Bydd y rhain yn cael eu codi yn y cyfarfod gyda chytundeb y Cadeirydd.

Ar unrhyw adeg, gall yr Aelodau gyfeirio eitemau ar gyfer Agenda'r Fforwm Ysgolion at Glerc y Fforwm er mwyn eu hystyried ymhellach a'u cynnwys yn Rhaglen Waith y Fforwm Ysgolion, gyda chytundeb y Cadeirydd a thrwy drafodaethau/cytundebau pellach ag Aelodau'r Fforwm lle bo angen.

## 3.7 Gweithgor / Is-Grwpiau Ychwanegol

Bydd y Fforwm yn sefydlu Gweithgor Fforwm Ysgolion (y Gweithgor) bob blwyddyn academaidd i gyfarfod yn ôl yr angen, ac yn unol â'r ffrydiau gwaith a gyfeiriwyd at y Gweithgor gan y Fforwm llawn. Bydd y Fforwm llawn yn cytuno ar Gylch Gorchwyl y Gweithgor yn y Cyfarfod Blynyddol bob Tymor yr Hydref, ac Is-Gadeirydd y Fforwm fydd yn cadeirio'r Gweithgor.

Gall y Fforwm hefyd sefydlu, o bryd i'w gilydd, Grŵp Gorchwyl-a-Gorffen neu Is-Grwpiau ychwanegol i ystyried materion penodol megis adolygiadau CLG manwl. Gall yr Is-Grwpiau ychwanegol hyn gynnwys Aelodau o'r tu allan i rai'r Fforwm Ysgolion ond cânt eu cadeirio gan Aelod o'r Fforwm, a lle bo'n bosibl, bydd mwyafrif yr Aelodaeth yn deillio o'r Fforwm. Cytunir ar Gylch Gorchwyl yr Is-Grwpiau ychwanegol hyn gyda'r Fforwm Ysgolion.

Bydd Cadeirydd y Gweithgor a Chadeiryddion y Grwpiau Gorchwyl-a-Gorffen/Is-Grwpiau eraill yn adrodd yn ôl i'r Fforwm ynghylch holl ystyriaethau'r Grŵp a gwneir nodyn o ddeilliant pob cyfarfod.

Caiff cofnodion y Gweithgor eu dosbarthu i'w Aelodau ar ffurf ddrafft ar gyfer sylwadau, a gwneir hynny o fewn 5 niwrnod gwaith i'r cyfarfod. Bydd y rhain wedyn yn cael eu cytuno yng nghyfarfod nesaf y Gweithgor neu'r Fforwm Llawn. Bydd cofnodion pob Gweithgor ac Is-grŵp hefyd yn cael eu rhannu a'u cadarnhau gyda'r Fforwm Llawn.

Os na all Aelod o'r Gweithgor fynychu cyfarfod, gallant enwebu Dirprwy o blith Aelodaeth bresennol y Fforwm sydd yn yr un categori, h.y. Pennaeth Cynradd, Pennaeth Uwchradd neu Lywodraethwr Cynradd/Uwchradd ac ati.

Bydd trafodion y Gweithgor ac unrhyw Is-Grwpiau yn cael eu cynnal yn breifat.

## 3.8 Cyfrinachedd

Ar adegau, ac yn arbennig mewn perthynas â materion yn ymwneud â chontractau, gellir rhoi gwybodaeth freintiedig neu gyfrinachol i Aelodau'r Fforwm, y Dirprwyon, y Sylwedyddion ac Aelodau'r Gweithgorau i'w helpu i ddeall y mater dan sylw. Rhaid i Aelodau'r Fforwm, y Dirprwyon, y Sylwedyddion ac Aelodau'r Gweithgorau lynu wrth gyfrinachedd y materion hyn.

Caiff cofnodion o'r eitemau hyn eu nodi fel rhai cyfrinachol ac efallai na fyddant yn cael eu rhannu.

## 3.9 Datgan Buddiannau

Os oes gan Aelod fuddiant personol mewn mater ac os yw'n mynychu cyfarfod o'r Fforwm lle ystyrir y mater, mae'n rhaid iddo ddatgelu i'r cyfarfod fodolaeth a natur y buddiant hwnnw ar ddechrau'r cyfarfod neu ar adeg pan ddaw'r buddiant i'r amlwg.

Dylai Aelod ystyried bod ganddo fuddiant personol mewn unrhyw fater os gellir yn rhesymol farnu y bydd trafodaeth yn ei gylch yn effeithio ar ei lesiant neu'i sefyllfa ariannol ei hun a'i berthnasau neu ar unrhyw gyflogaeth a busnes a gyflawnir ganddynt.

## 3.10 Treuliau

Bydd holl gostau'r Fforwm yn cael eu talu gan yr Awdurdod a'u rhoi ar gyfrif cyllideb yr ysgol.

Bydd yr Awdurdod yn ad-dalu holl dreuliau rhesymol yr Aelodau yn unol â'r canllawiau priodol a gyhoeddwyd gan y Cyfarwyddwr Cyllid. Dylid anfon pob hawliad am dreuliau ymlaen at Glerc y Fforwm yn y lle cyntaf.

## 3.11 Materion Eraill

Lle nad ymdrinnir yn benodol ag unrhyw fater yn y Cylch Gorchwyl hwn, gall y Fforwm reoleiddio ei drafodion ei hun mewn trafodaeth â'i Aelodau a gyda chytundeb y Cadeirydd.

# Adran 4 Gweithredu Fforymau Ysgolion yn Effeithiol

## 4.1 Cyfathrebu ag Ysgolion

Hysbysir pob Pennaeth a Chadeirydd Llywodraethwyr am gyfarfodydd rheolaidd y Fforwm o fewn pum niwrnod gwaith i gynnal y cyfarfod. Bydd ysgolion yn cael copïau o'r Agenda, Cofnodion y Cyfarfodydd Blaenorol, a'r Holl Bapurau ac eithrio Eitemau Cyfrinachol.

MTCBC Schools Forum - Overview - Networks - Hwb (gov.wales)

Lle bo angen, ac mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd a'r Cyfarwyddwr Addysg, ni chaiff unrhyw eitemau cyfrinachol mo'u rhannu â'r rhai nad ydynt yn Aelodau. Bydd yr eitemau eithriedig yn cael eu nodi ar yr Agenda a'u cofnodi ar wahân.

Os bydd angen, gofynnir i bob Pennaeth a Chadeirydd y Llywodraethwyr nad ydynt yn Aelodau godi unrhyw faterion â'u Cynrychiolwyr cyn y cyfarfod pan fydd y papurau'n cael eu rhannu trwy e-bost. Hefyd, fe gynghorir y rhai nad ydynt yn Aelodau i hysbysu Cynrychiolydd sydd *yn* Aelod os ydynt am ychwanegu unrhyw eitemau at agendâu'r cyfarfodydd dilynol.

## 4.2 Cyfathrebu â Fforymau Penaethiaid a Chymdeithas Llywodraethwyr

Bydd y Pennaeth Cynradd a'r Pennaeth Uwchradd a enwebwyd gan y Fforwm i fod yn Aelodau ohono, yn cael eu gwahodd i fod yn gyswllt allweddol ar gyfer y Fforwm Penaethiaid perthnasol, a byddant yn darparu diweddariadau gan y Fforwm bob tymor ac yn ôl yr angen.

Lle bo Pennaeth yn cyflawni rôl fel Cadeirydd neu Is-Gadeirydd y Fforwm, yna fel arfer, byddai disgwyl iddo/iddi weithredu fel y Cynrychiolydd sy'n darparu'r diweddariadau ar gyfer y Fforymau Penaethiaid priodol.

Dylid annog Aelodau'r Fforwm hefyd i drafod trafodion y Fforwm yn y Grwpiau Clwstwr y maent yn eu mynychu.

Bydd Cynrychiolydd y Llywodraethwyr a enwebir gan y Fforwm yn cael ei wahodd i fod yn gyswllt allweddol gyda Chymdeithas Llywodraethwyr Merthyr Tudful a bydd yn darparu diweddariadau gan y Fforwm bob tymor ac yn ôl yr angen.

Gellir hefyd gwahodd Swyddogion sy'n cyflawni rôl yr Awdurdod Lleol fel Clerc y Fforwm, i fynychu Fforymau'r Penaethiaid a Chymdeithas y Llywodraethwyr o bryd i'w gilydd, i drafod materion y Fforwm Ysgolion, er mai'r Aelod Ysgolion Dynodedig uchod a ddylai adrodd ynghylch y prif ddiweddariadau mewn perthynas â gwaith a thrafodaethau'r Fforwm Ysgolion.

## 4.3 Cyfathrebu â Chyrff Llywodraethol

Mae'r rheoliadau'n nodi bod yn rhaid i'r Fforwm hysbysu pob Corff Llywodraethol cyn gynted ag sy'n rhesymol bosibl, am bob ymgynghoriad a gynhelir gyda'r Fforwm gan yr Awdurdod ynghylch y canlynol:

4.3.1 Cyllideb Ysgolion yr Awdurdod Lleol;
4.3.2 newidiadau i'r Cynllun Dirprwyo;
4.3.3 newidiadau i'r Fformiwla Ariannu ac effaith debygol y cyfryw newidiadau;
4.3.4 contractau ar gyfer cyflenwadau a gwasanaethau sy'n uwch na'r trothwy rhagnodedig ar gyfer caffael; a
4.3.5 Cytundebau Lefel Gwasanaeth ar gyfer cyflenwi nwyddau a gwasanaethau gan yr Awdurdod i Ysgolion.

Bydd y Fforwm yn gwneud argymhellion mewn perthynas â'r holl ymgynghoriadau ynghylch yr uchod ac yn rhannu'r argymhellion hyn gyda Chyrff Llywodraethol.

Caiff y Cyrff Llywodraethol eu hannog i drafod materion a godwyd yn y Fforwm fel Eitem Sefydlog yn eu Cyfarfodydd Tymhorol. Darperir gwybodaeth ar gyfer y diweddariad tymhorol ar waith y Fforwm fel rhan o Adroddiad y Cyfarwyddwr Addysg.

## 4.4 Gwefan Fforwm Ysgolion

Bydd tudalen we'r Fforwm Ysgolion yn darparu Cylch Gorchwyl, Rhestr Aelodau, Agendau a Chofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd.

School Budget Forum | Merthyr Tydfil County Borough Council

## 4.5 Adolygu'r Cylch Gorchwyl

Bydd y Fforwm yn adolygu ei Gylch Gorchwyl ym mhob Cyfarfod Blynyddol yn Nhymor yr Hydref er mwyn myfyrio ynghylch ei arferion presennol a sicrhau ei fod yn parhau i fodloni'r rheoliadau ynghyd ag anghenion Aelodau'r Fforwm a'r rhanddeiliaid ehangach. Cytunir ar unrhyw newid i'r Cylch Gorchwyl yn y Cyfarfod Blynyddol, neu yn ôl yr angen.

## 4.6 Hyfforddi Aelodau

Er mwyn gwella effeithiolrwydd y Fforwm, dylai pob Aelod newydd ac Aelod arall lle bo angen, dderbyn hyfforddiant yn y meysydd sy'n berthnasol i drafodion y Fforwm. Er enghraifft, Swyddogaethau Craidd y Fforwm, Ariannu yn ôl Fformiwla, Cyllideb Ysgolion yr Awdurdod Lleol, a'r Cynllun Ariannu Ysgolion.

Bydd Rhaglen Hyfforddi yn cael ei darparu yn 2022-23 ar gyfer Aelodau newydd ac eraill o'r Fforwm yn ôl yr angen.

## 4.7 Arferion a Hunanwerthusiadau Effeithiol

Argymhellir bod Fforymau Ysgol yn gwerthuso arferion effeithiol ac yn cynnal hunanwerthusiadau; fodd bynnag, nid yw hyn yn arfer gyffredin ar draws Awdurdodau Lleol.

I fynd i'r afael â hyn, caiff Arolwg Canfyddiadau ei gynllunio a'i rannu â rhanddeiliaid yn Nhymor yr Hydref 2022 er mwyn adolygu effeithiolrwydd y Fforwm Ysgolion. Bydd y casgliadau hyn yn cael eu defnyddio i lywio arferion y presennol a'r dyfodol. At hynny, fe'u defnyddir fel sylfaen i lywio'r gwerthusiad o effeithiolrwydd a gaiff ei gynnal yn rheolaidd gan y Fforwm Ysgolion.